Date • Dyddiad 17 Rhagfyr 2021
Your ref • Eich cyfeirnod
My ref • Fy nghyfeirnod SRD/KR
Telephone • Ffôn 01437 775861
Email • Ebost Steven.richards-downes@pembrokeshire.gov.uk
www.pembrokeshire.gov.uk / www.sir-benfro.gov.uk

Pembrokeshire County Council
Cyngor Sir Penfro

WILL BRAMBLE CBE.
Chief Executive / Prif Weithredwr

STEVEN RICHARDS-DOWNES
Director of Education
Cyfarwyddwr Addysg

Pembrokeshire County Council,
County Hall, HAVERFORDWEST,
Pembrokeshire, SA61 1TP

Cyngor Sir Penfro,
Neuadd y Sir, HWLFFORDD,
Sir Benfro, SA61 1TP

Telephone / Ffôn 01437 764551

Please ask for
Os gwelwch yn dda gofynnwch am

Steven Richards-Downes

At: Rhieni a Gofalwyr

Annwyl Rhieni a Gofalwyr,

Diolch am eich cefnogaeth a'ch cydweithrediad parhaus yn ystod y flwyddyn hon wrth gefnogi eich plant a'n hysgolion yn yr hyn na ellir ond ei ddisgrifio fel amgylchiadau heriol. Efallai eich bod eisoes yn ymwybodol drwy'r wasg a ffynonellau eraill yn y cyfryngau bod y Gweinidog Addysg wedi ysgrifennu at Gyfarwyddwyr Addysg ac arweinwyr ysgolion ynghylch dechrau tymor y gwanwyn 2022 a'r heriau y gallwn eu hwynebu o ganlyniad i amrywiolyn Omicron o COVID19.

Mae pob un ohonom am gadw eich plant yn ddiogel a darparu dilyniant dysgu i'n holl ddysgwyr. Dyna pham nad ydym wedi gwneud unrhyw newidiadau i drefniadau diwedd tymor yn ein hysgolion, gyda nifer ohonynt yn parhau â'u tymor i'r wythnos nesaf.

Bydd tymor y gwanwyn yn dod â heriau newydd i bob ysgol gan fod y Gweinidog Addysg wedi gofyn i ysgolion ledled Cymru ddychwelyd i'r lefel risg uchel iawn yn y fframwaith gwneud penderfyniadau lleol.

O ganlyniad i'r penderfyniad hwnnw, mae pob ysgol wedi cael dau ddiwrnod cynllunio ar ddechrau'r tymor nesaf. Mewn rhai achosion, bydd ysgolion eisoes wedi cynllunio diwrnodau Hyfforddiant Mewn Swydd ar ddechrau'r tymor ac efallai na fyddant yn gallu newid y trefniadau hynny. Bydd ysgolion yn gallu rhoi dyddiad diwygiedig er mwyn dychwelyd i'r ysgol i chi drwy eu sianeli cyfathrebu arferol erbyn diwedd yr ysgol heddiw.

We welcome correspondence in Welsh and English, and will respond within a maximum of 15 working days. We will respond in the language in which the correspondence is received (unless you ask us to do otherwise). / Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg a byddwn yn ymateb cyn pen 15 diwrnod gwaith fan bellaf. Byddwn yn ymateb yn yr un iaith â'r ohebiaeth a dderbyniwyd (oni bai eich bod yn gofyn i ni wneud yn wahanol).

For a copy in large print, easy-read, Braille, audio, or an alternative language, please contact Pembrokeshire County Council on the number above. / Os am gopi mewn print mawr, fformat hawdd ei ddarllen, Braille, sain neu mewn iaith arall, cysylltwch â Chyngor Sir Penfro ar y rhif uchod.

Gofynnir i ysgolion weithredu lefelau uwch o liniaru o fis Ionawr, a hynny'n debyg i'r hyn a wnaethpwyd wrth i ni adael y cyfnod clo. Mae hyn yn golygu y byddwn yn dychwelyd at:

• grwpiau cyswllt o fis Ionawr
• gall ysgolion ailgyflwyno amrywio amseroedd cychwyn a gorffen y diwrnod ysgol; a
• newidiadau i amserlenni er mwyn sicrhau eu bod yn gallu cadw dysgwyr yn ddiogel.

Bydd lles a chymorth i ddysgwyr yn rhan o'n blaenoriaethau allweddol yn ogystal â sicrhau parhad i addysgu.

Ar y ddau ddiwrnod cynllunio, bydd ysgolion yn profi eu systemau dysgu-o-bell pe bai angen dychwelyd i'r rhain y tymor nesaf o ganlyniad i'r pryderon parhaus ynghylch COVID19. Gobeithiwn na fydd angen y rhain yn yr wythnosau i ddod ond bydd rhaid cynllunio ar eu cyfer os bydd angen.

Rydym yn ymrwymo i gefnogi ein hysgolion ac arweinwyr ysgolion i leihau'r effaith ar addysg dysgwyr.

Bydd y teuluoedd hynny sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn derbyn taliadau ar gyfer y 4ydd a'r 5ed o Ionawr i'w cefnogi gan na fydd ceginau ysgol yn gweithredu ar y dyddiadau hyn.

Bydd yn ofynnol i ddysgwyr oedran uwchradd barhau i wisgo gorchydd gwyneb ymhob ardal dan-dô, gan gynnwys ystafelloedd ddosbarth, lle na ellir cynnal pellter corfforol.

Anogir staff a dysgwyr oedran uwchradd ac uwch i barhau â Phrofion Llif Ochrol rheolaidd - y cyngor cryf yw profi deirgwaith yn yr wythnos cyn dychwelyd i'r ysgol ac yna parhau i brofi'n rheolaidd dair gwaith yr wythnos ar ôl dechrau'r tymor.

Yn ddiffuant



Steven Richards-Downes
Cyfarwyddwr Addysg